Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 22.07.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## CYMORTH: Mae Cyngor Gwynedd yn ehangu'r tîm cymorth busnes

Rydym yn chwilio am yr unigolyn iawn i ddod yn Swyddog Ymgysylltu Busnesau Lleol newydd, a helpu i gefnogi ein cymuned fusnes rhagorol. Y dyddiad cau yw 10:00am 28 Gorffennaf 2022. Am fwy o fanylion am y swydd, gan gynnwys sut i ymgeisio, ewch i:

https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/SwyddiArLein/cy/Swydd/Manylion/22910

## CYFLE: Busnes@LlandrilloMenai – Prosiect Sero Net Gwynedd

Gyda chymorth Cronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU, mae Busnes@LlandrilloMenai yn datblygu cyrsiau a fydd yn helpu busnesau adeiladu lleol i ennill y sgiliau a'r cymwysterau y bydd eu hangen arnynt i osod technolegau glân newydd fel pympiau gwres, pwyntiau gwefru cerbydau trydan ac insiwleiddio allanol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.gllm.ac.uk/cy/busnes/projects/cist-project-net-zero-gwynedd

# TRAFNIDIAETH: Bws gwennol trydan Bws Ogwen wedi ei lansio

Mae menter gymdeithasol Partneriaeth Ogwen wedi derbyn grant sydd wedi eu galluogi i brynu bws gwennol trydan er budd trigolion a busnesau lleol. Bydd y gwasanaeth o Fethesda i Lyn Ogwen ym misoedd yr haf, sydd wedi ei lansio ar 21 Gorffennaf 2022, yn annog ymwelwyr i ardal Llyn Ogwen i ddefnyddio Bethesda fel canolfan. Mae mwy am hyn ar:

https://bit.ly/3PA8B9N

# TECH: Arddangos Datrysiad SMART – Digwyddiad Wordnerds 27 Gorffennaf 2022

Mae systemau Tref SMART – sy'n darparu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr – eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi lleol, gyda mwy ar y ffordd. Cynhelir datrysiad Tref SMART ar-lein, yn cynnwys Wordnerds, datrysiad dadansoddeg testun sy'n cefnogi awdurdodau lleol i wrando ar adborth dinasyddion a gweithredu arno, ar 27 Gorffennaf 2022 (12:00pm-1:15pm). Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3BauhWe

# TRAFNIDIAETH: Gweithredu diwydiannol i effeithio ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru (TrC) ar 27 a 30 Gorffennaf 2022

Cynghorir cwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru (TrC) i gynllunio eu teithiau'n ofalus yr wythnos nesaf gan y bydd gwasanaethau'n cael eu tarfu gan

ddau ddiwrnod o weithredu diwydiannol cenedlaethol. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://bit.ly/3IXBAIS

## NEWYDDION: Ailwampiad digidol yn adfywio parc gwyliau

Mae Cyflymu Cymru i Fusnesau wedi cefnogi busnes yng Ngwynedd, Parc Carafanau Ty’n Don, Porth Neigwl, i gael diweddariad digidol llawn, gyda gwefan newydd a system archebu fodern, yn ogystal â strategaeth farchnata sy’n canolbwyntio ar gyfryngau cymdeithasol ac optimeiddio peiriannau chwilio (OPCh). Mae mwy am y stori yma ar:

https://bit.ly/3opezPs

Gallwch ddarganfod sut all Cyflymu Cymru i Fusnesau helpu eich busnes ar:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy

## CYFLE: The Pitch 2022

Mae The Pitch yn gystadleuaeth am ddim sy’n rhoi’r gefnogaeth i fusnesau newydd dyfu a’r llwyfan i godi buddsoddiad, gan roi cyfle i fusnesau yn y DU sydd wedi bod yn masnachu am lai na thair blynedd i gael eu busnes o flaen buddsoddwyr, ennill gwobrau gwerth £10,000 yn ogystal â phecyn mentora a hyfforddi. Mae ceisiadau’n cau ar 31 Gorffennaf 2022. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://thepitch.uk/apply-for-the-pitch/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru